**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2023 trwy Zoom**

**YN BRESENNOL**

<u>Cynrychiolwyr y Cyflogwr:</u>
Y Cynghorydd John B Hughes
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod a'r Swyddog Monitro

<u>Cynrychiolwyr y Gweithwyr:</u>
Stuart Millington, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân

<u>Ymgynghorwyr</u>
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau
Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed

<u>Cofnodydd</u>
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol

**1 PENODI CADEIRYDD**

Nodwyd bod PSTC Fairhead bellach wedi ymddeol ac, o'r herwydd, roedd angen Cadeirydd newydd ar y Bwrdd Pensiwn Lleol.

Cafodd PSTC Millington ei enwebu fel Cadeirydd am weddill y flwyddyn ariannol. Eiliwyd yr enwebiad ac roedd y bleidlais yn unfrydol.

**2 YMDDIHEURIADAU**

2.1 Cynigiwyd ymddiheuriadau a'u derbyn gan Lee Williams, Cymdeithas y Swyddogion Tân a Stuart Stanley, Undeb y Brigadau Tân. Nodwyd bod y Cynghorydd Bryan Apsley, Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân a Matt Ryan, Undeb y Brigadau Tân yn absennol heb ymddiheuriad.

**3 DATGANIADAU O FUDDIANT**

3.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

4.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4.2 Cytunwyd y byddai PSTC Helen MacArthur yn sicrhau bod Risg Seiber yn cael ei chynnwys ar Gofrestr Risg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

4.3 Nodwyd y dylid rhifo'r trydydd pwynt o dan baragraff 9 yn 9.3.

## 5 CYFRIF Y GRONFA BENSIWN

5.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur bapur Cyfrif y Gronfa Bensiwn, a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfrif drafft y gronfa bensiwn ar gyfer 2022/23.

5.2 Eglurwyd bod y prisiad cronfeydd pensiwn yn brisiad ar gyfer Cymru gyfan ac yn cael ei yrru gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun. Cynhelid prisiad ffurfiol bob pedair blynedd, ond gwnaed prisiad blynyddol hefyd at ddibenion cyfrifo ac roedd hyn yn aml yn arwain at amrywiadau.

5.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r cyfrifon cronfa bensiwn heb eu harchwilio ar gyfer 2022/23; a**

**ii) nodi amseriad yr archwiliad allanol.**

## 6 ADRODDIAD DIWEDDARU – AELODAETH Y CYNLLUN

6.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet Adroddiad Diweddaru Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a oedd yn anelu at roi diweddariad i'r Bwrdd Pensiwn Lleol (BPLl) ar faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

6.2 Nodwyd bod llawer iawn o waith yn ymwneud â delio â'r broses unioni er mwyn sicrhau bod gweithwyr a oedd o fewn y cwmpas yn gallu hawlio'r hyn yr oedd ganddynt hawl iddo.

6.3 Dywedwyd ymhellach bod cywirdeb y data yn hanfodol.

6.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 7 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR

7.1 Cyflwynodd Martin Morgan adroddiad gweinyddu pensiynau'r Gwasanaeth – Mawrth 2023. Roedd yn anelu at roi diweddariad ar gynnydd nifer o brosiectau oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.

7.2 Cadarnhawyd bod Cronfa Bensiwn Dyfed yn dal i aros am ddiweddariadau system gan Adran Actiwari'r Llywodraeth mewn perthynas â'r cyfraddau SCAPE newydd er mwyn gallu gwneud cyfrifiadau ar gyfer trosglwyddiadau.

7.3 Cytunwyd y byddai'r Gwasanaeth yn cynnal ymgyrch hyrwyddo ar annog staff perthnasol i fewngofnodi i Fy Mhensiwn Ar-lein (MPO), ac i wirio'r wybodaeth bersonol a gedwir yn y gronfa ddata honno.

7.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad**

## 8 DIWEDDARIAD AR FATERION CYFREITHIOL

8.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur yr adroddiad hwn, a oedd wedi'i ysgrifennu i roi diweddariad i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar unioni.

8.2 **PENDERFYNWYD**

**i) nodi'r materion cyfreithiol parhaus sy'n berthnasol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r statws presennol; a**

**ii) nodi effaith bosibl y ddwy her gyfreithiol ar y prisiad actiwaraidd sydd i ddod.**

## 9 Y GOFRESTR RISG

9.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad y Gofrestr Risg, a oedd yn rhoi diweddariad i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar y trefniadau rheoli risg.

9.2 Tynnwyd sylw'r aelodau at y Gofrestr Risg a oedd wedi'i chynnwys ar dudalen 42 yr adroddiad ac amlygwyd y risgiau pennaf i'r Aelodau. Nodwyd mai Seiberdroseddu oedd y risg weithredol uchaf ar y gofrestr ar hyn o bryd.

9.3 Gofynnwyd a oedd yr Adran TGCh yn cadw cofnod o ymdrechion treiddio, ac ymatebwyd i ddweud eu bod yn gwneud hynny.

9.4 Gofynnwyd am gael newid y risg McCloud a Sargeant er mwyn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn ymwneud â chyllid.

9.5 **Penderfynwyd:**

**i) ystyried a chymeradwyo'r asesiad o'r risgiau cyllid sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

## 10 HYFFORDDIANT

10.1 Rhoddodd PSTC Helen MacArthur gyflwyniad hyfforddi ar Reoli Cwynion ac Anghydfodau.

## 11 DIWEDDARIAD AR FWRDD YMGYNGHORI'R CYNLLUN I GYMRU

11.1 Rhoddodd PSTC MacArthur ddiweddariad llafar ar Fwrdd Ymgynghori'r Cynllun i Gymru.

11.2 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod cyfarfod o Fwrdd Ymgynghori'r Cynllun wedi'i drefnu ar gyfer 28 Gorffennaf ac y byddai rhagor o wybodaeth yn ymwneud â rhagdybiaethau prisiad 2020 a'r unioni yn sgil gwahaniaethu ar sail oedran ar gael yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

## 12 CYLCH GORCHWYL DIWYGIEDIG – I'W GYMERADWYO

12.1 Cyflwynwyd y Cylch Gorchwyl diwygiedig i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol er mwyn iddynt ei gymeradwyo.

12.2 Cytunodd yr Aelodau bod angen ehangu aelodaeth y BPLl i sicrhau bod pob ardal yn cael ei chynrychioli'n llawn ym mhob cyfarfod.

## 13 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

12.1 Cytunwyd y byddai'r Cylch Gorchwyl diwygiedig yn cael ei roi gerbron yr Awdurdod Llawn er mwyn ceisio cymeradwyaeth i ehangu aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth lawn a theg ym mhob cyfarfod.

## 13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

13.1 Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 24 Hydref, 2023 am 09:00 y bore.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:10